SL(5)489 - Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau a ganlyn ("y Rheoliadau Arolygu") -

- Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001,
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006,
- Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006, a
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015.

Ar hyn o bryd mae'r Rheoliadau Arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru neu Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales gynnal arolygiad o leiaf unwaith o fewn y cyfnod o 7 mlynedd sy'n dechrau ar 1 Medi 2016 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2023 ("Y Cyfnod Arolygu Cyntaf") ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod arolygu o 6 mlynedd wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Cyfnod Arolygu Cyntaf ym mhob un o'r Rheoliadau Arolygu fel y bydd yn dod i ben ar 31 Awst 2024 yn lle 31 Awst 2023. Bydd pob arolygiad wedi hynny yn parhau i gael ei gynnal unwaith ym mhob cyfnod arolygu o 6 mlynedd.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

i. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y Cyfnod Arolygu Cyntaf o flwyddyn. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol mai'r diben yw caniatáu i arolygiadau gael eu hatal yn rhannol rhwng mis Medi 2020 a mis

Awst 2021 er mwyn caniatáu amser i ysgolion ganolbwyntio ar y newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud yn unol â'r diwygiadau i'r cwricwlwm, a'u hymgorffori.

ii. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu atal arolygiadau yn y lleoliadau y rhagnodir ar eu cyfer yn y Rheoliadau Arolygu cyfredol. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y rhagwelir y bydd arolygiadau yn cael eu hatal yn rhannol ar gyfer meithrinfeydd a gynhelir, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn unig, ond mae hyblygrwydd i atal arolygiadau ym mhob meithrinfa, gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig a lleoliadau addysg bellach. Esbonir hefyd y bydd hyn yn caniatáu i bob lleoliad aros yn yr un cylch arolygu yn ystod y cyfnod cyfredol ac wedi hynny.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod.